

Cynllun Dychwelyd Ernes

0 fudd i Gymru gyfan



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymgynghoriad i bobl ifanc

Helo

Mae Cymru eisoes yn arweinydd byd-eang ym maes ailgylchu, ond mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud mwy.



Felly, rydyn ni'n sefydlu **Cynllun Dychwelyd Ernes** — neu CDE yn fyr.

Rydym ni am sicrhau bod y CDE yn gweithio i bawb ac o fudd i Gymru gyfan.

➔ Mae'n helpu swyddi, busnes a'r economi:

- Bydd diwydiannau newydd yn tyfu o gwmpas casglu, didoli a glanhau poteli y gallir eu hailddefnyddio.
- Gallai siopau a busnesau bach gynnig pwyntiau dychwelyd neu opsiynau poteli y gallir eu hailddefnyddio.

➔ Mae'n ein helpu i gyrraedd ein nodau i amddiffyn y blaned nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:


- Lleihau sbwriel
- Lleihau llygredd
- Lleihau faint o blastig a gwydr sy'n cael ei ddefnyddio
- Lleihau carbon ac yn ein helpu i gyrraedd sero net erbyn 2050.

Rydym ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi.



Felly, darllenwch y ddogfen hon ac atebwch y cwestiynau yma:

➔ llyw.cymru/cyflwyno-cynllun-ddychwelyd-ernes-ar-gyfer-cynwysyddion-diodydd-yn-gnghymru




Sut mae'n gweithio

Pan fyddwch chi'n prynu diod, rydych chi'n talu ychydig yn ychwanegol — **ernes**.



A phan fyddwch chi'n dychwelyd y botel wag neu'r can, rydych chi'n ei gael yn ôl.



Pan fyddwch chi'n eu dychwelyd...

bydd rhai yn cael eu golchi a'u hailddefnyddio.

Os na ellir eu hailddefnyddio, byddant yn cael eu hailgylchu a'u troi'n rhai newydd.



Yn siarad am... y CDE



Rhwng 2019-2021 cynhaliwyd ymgynghoriadau eraill ynglŷn â chyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fe wnaethom ni ddefnyddio'r hyn a ddywedodd pobl i'n helpu i ddatblygu'r CDE yng Nghymru.

Sut bydd hyn yn gweithio

Bydd y CDE yn cael ei reoli a'i redeg gan **Sefydliad Rheoli Ernes (DMO)**. Bydd angen i unrhyw sefydliad sydd eisiau bod yn DMO wneud y canlynol:

- llenwi ffurflen gais
- darparu cynllun ar gyfer sut y byddant yn bodloni holl ofynion y cynllun.

Beth sydd wedi'i gynnwys



Bydd y CDE yn cynnwys cynwysyddion diod sydd:

- o 150ml i 3 litr
- yn cael eu gwerthu mewn niferoedd mawr
- wedi'u gwneud o'r canlynol:



Gwydr



Plastig (PET)



Alwminiwm a dur.



Ni fydd y CDE yn cynnwys cynwysyddion gwydr sydd:

- yn cael eu gwerthu mewn niferoedd bach gan gynhyrchwyr llai
- eisoes yn rhan o system aildefnyddio fel danfoniadau llaeth i garreg y drws.



Cynllunio'r daith – y 'map ffordd aildefnyddio'

Ni allwn wneud popeth ar unwaith, ond bydd hyn yn dechrau'r daith tuag at gael mwy o gynwysyddion diod y gellir eu haildefnyddio a llai o rai untro.

i Byddwn yn ysgrifennu set o reolau ar gyfer y CDE o'r enw Fframwaith Rheoleiddio. Bydd yn nodi'r hyn yr ydym ni'n disgwyl iddo ddigwydd..

Bydd cynllun arall hefyd. Bydd yn dangos sut y byddwn ni'n symud o gynwysyddion diodydd untro i gynwysyddion diodydd y gellir eu haildefnyddio. Mae'r 'map ffordd aildefnyddio' hwn yn rhan bwysig o'n helpu i gyrraedd ein nodau.

Rydym ni'n credu y dylai'r diwydiant diodydd weithio gyda'r Sefydliad Rheoli Ernes (DMO) i ddatblygu'r cynllun hwn.



Dywedwch eich barn wrthym.



Yn siarad am... gosod targedau a nodau

Ar gyfer cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

Mae gwledydd eraill wedi gosod targedau. Yn yr Almaen, mae 50% o'r holl gynwysyddion diod sy'n cael eu gwerthu yn rhai y gellir eu hailddefnyddio. Ond, yn Latfia, y targed yw 15%.

Mae cyfraith newydd yr Undeb Ewropeaidd yn gosod targedau sy'n golygu erbyn:

- 2030 — rhaid i o leiaf 10% o ddeunydd pacio diodydd fod yn rhai y gellir eu hailddefnyddio
- erbyn 2040 — rhaid iddo fod o leiaf 40%.

Targedau ar gyfer y DMO

Rydym ni am osod targedau ailddefnyddio ar gyfer y DMO. Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gael isafswm canran o gynwysyddion diodydd wedi'u casglu i'w hailddefnyddio, yn hytrach na'u defnyddio unwaith a'u hailgylchu. Bydd y targedau hyn yn cael eu mesur fesul eitem (yn hytrach nag yn ôl pwysau) ac yn cynyddu dros amser, o 2031, 2035, a 2040.

Targedau ar gyfer cynhyrchwyr

Rydym ni hefyd am osod targedau ailddefnyddio ar gyfer cynhyrchwyr. Byddai hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gael isafswm canran o gynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio ar gael i'w gwerthu. Bydd y targedau hyn yn cynyddu dros amser, o 2031, 2035, a 2040.



Dywedwch eich barn wrthym.

Targedau i ddangos ein bod yn gwella

Mae Cymru eisoes ymhlith y goreuon yn y byd am ailgylchu — ond rydym ni am wneud hyd yn oed yn well a dangos ein bod yn gwneud cynnydd.

Rydym ni am osod targedau casglu ar gyfer tair blynedd gyntaf y CDE ar 70%, wedyn 80%, wedyn 90%. Ni fydd y targedau hyn yn berthnasol i boteli gwydr tra bydd ganddynt ddim ernes.

Ar ôl y tair blynedd gyntaf, rydym ni am i Gymru gyrraedd yr un lefelau uchel â'r cynlluniau gorau yn y byd.



Dywedwch eich barn wrthym.

Yn siarad am... pwyntiau dychwelyd

Pwyntiau dychwelyd

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau'n gofyn i bobl ddychwelyd cynwysyddion diod gwag i siopau ac archfarchnadoedd. Mae gan rai hefyd beiriannau gwerthu gwrthdro (RVMs). Ond gallai technoleg newydd fel apiau roi mwy o opsiynau yn y dyfodol.

Bydd y DMO yn penderfynu ble i roi pwyntiau dychwelyd.

Bydd angen iddynt sicrhau bod dychwelyd poteli a chaniau yn broses hawdd. Rhaid iddynt sicrhau bod pwyntiau dychwelyd yn hawdd i bobl ddod o hyd iddynt, yn hawdd eu defnyddio ac yn diwallu anghenion pobl.



Yn siarad am... ad-daliadau

Opsiynau ad-dalu

Mae llawer o bobl yn defnyddio cardiau i dalu am bethau, ond nid oes gan rai pobl gyfrifon banc ac mae eraill yn defnyddio arian parod yn unig. Felly dylai ad-daliadau fod ar gael mewn gwahanol ffyrdd a gallai ddibynnu ar sut mae pobl wedi dychwelyd eu cynhwysydd.

Rydym ni'n credu y dylai fod:

- Pwyntiau dychwelyd mewn archfarchnadoedd, siopau lleol a storfeydd arbennig - gellid talu ad-daliadau mewn arian parod, trwy gerdyn neu gan ddefnyddio ap.
- Pwyntiau dychwelyd ar garreg y drws neu wrth ymyl y ffordd - gellid talu ad-daliadau i gyfrifon banc, gan ddefnyddio'r ap neu eu defnyddio fel credyd ar gyfer danfoniadau bwyd ar-lein. Ni fyddai hyn yn cynnwys arian parod.

Dylai pob pwynt dychwelyd gynnwys ffyrdd o roi eich ad-daliad i elusen.

Cario cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio

Mewn rhai gwledydd, mae siopau yn gwerthu diodydd mewn cratiau potel y gellir eu hailddefnyddio. Mae pobl yn eu defnyddio i fynd â'u poteli yn ôl. Mae lleoedd eraill yn defnyddio pethau fel bagiau potel neu flychau plastig ar gyfer dychwelyd.

Rydym ni'n credu y dylid gadael y penderfyniad ar beth i'w ddefnyddio i'r diwydiant diodydd. Gallant weithio gyda'r DMO i ddod o hyd i'r hyn sydd orau.

 Dywedwch eich barn wrthym.

Lefelau ernes

Gall gwerth yr ernes effeithio ar faint o bobl sy'n dychwelyd eu poteli a'u caniau. Felly, mae'n bwysig ein bod ni'n ei osod yn iawn.

Mae rhai gwledydd yn defnyddio un gyfradd ar gyfer pob cynhwysydd. Mae eraill yn gosod symiau gwahanol. Er enghraifft:

Yn yr Almaen mae gan bob cynhwysydd untro gyfradd unfurf o €0.25. Ond mae cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio yn wahanol:

- Potel gwrw wydr: €0.08.
- Potel ddŵr mwynol gwydr / plastig PET: €0.15 neu €0.25.
- Poteli gwin gwydr: €0.02 neu €0.03.

Yn Latfia mae'n gyfradd unfurf o €0.10 ar gyfer popeth.

Rydym ni'n credu y dylai'r DMO benderfynu ar werth y blaendal. Bydd angen iddynt benderfynu a yw'r blaendal ar gyfer cynwysyddion diodydd y gellir eu hailddefnyddio yr un peth neu'n wahanol i gynwysyddion untro. Gallant ddefnyddio enghreifftiau o wledydd eraill i benderfynu beth fyddai'n gweithio orau i Gymru.

 Dywedwch eich barn wrthym.



Rheoli newidiadau eraill

Mae yna lawer o bethau i feddwl amdanynt wrth sefydlu CDE:

- sut ydyn ni'n cefnogi busnesau i wneud newidiadau i'r CDE
- sawl gwaith y gellir aildefnyddio cynhwysydd cyn iddo gael ei ailgylchu
- a oes angen i boteli fod o faint a siâp safonol
- sut i atal twyll a sicrhau bod y system yn deg.

Byddwn ni'n gweithio gyda'r diwydiant diodydd a'r DMO fel bod pethau'n digwydd yn y ffordd orau.

Er budd pob cymuned

Rydym ni'n credu y bydd y CDE yn dod â llawer o fanteision i gymunedau ledled Cymru nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn ein helpu:

- i gyrraedd ein nodau i ddiogelu'r blaned
- i greu swyddi a busnesau newydd
- i dyfu'r economi.

Mae gennym ni lawer o syniadau ar sut i wneud hyn gan gynnwys cefnogi digwyddiadau cymunedol a gweithdai ysgol. Ond rydyn ni eisiau sicrhau bod pob cymuned yn elwa!

? Dywedwch eich barn wrthym.

Iaith y Gymraeg

Byddwn yn sicrhau y gall pobl ddefnyddio'r system yn y Gymraeg. Bydd ganddi arwyddion, cyfarwyddiadau a gwybodaeth ddwyieithog glir a hawdd eu deall.

Sut ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg?

? Dywedwch eich barn wrthym.

Diolch am gymryd rhan

Anfonwch eich atebion i:

✉ wg.drsprogramme@llyw.cymru

📄 Tîm Polisi Cynllun Dychwelyd Blaendal
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

📅 Erbyn: 10 Tachwedd 2025

